

GwerthwchiGymru

Canllaw i Brynwyr - Canfod Cyflenwr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Beth yw *Canfod Cyflenwr*?

Mae *Canfod Cyflenwr* yn gyfeiriadur chwilio am gyflenwyr ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar y wybodaeth a ddelir eisoes ar GwerthwchiGymru, gan alluogi cyflenwyr i ddarparu gwybodaeth fanwl i brynwyr am y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau y gallant eu darparu i'r Sector Cyhoeddus. Bydd y gwasanaeth yn helpu i greu mwy o gysylltiadau rhwng busnesau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae *Canfod Cyflenwr* yn swyddogaeth annibynnol y gallwch fynd iddi drwy eich Panel Rheoli. Gallwch hefyd fynd iddi drwy'r dudalen Dosbarthu Dyfynbris Cyflym er mwyn dod i hyd i gyflenwyr ar gyfer ymarferion caffael gwerth isel/risg isel.

Sut mae *Canfod Cyflenwr* yn gweithio?

Mae'n rhaid i gyflenwyr ddewis y cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* ac yna gwblhau proffil *Canfod Cyflenwr* drwy lenwi ffurflen fer a lanlwytho logo eu cwmni (dewisol).

Gall prynwyr ddefnyddio gwahanol baramedrau i chwilio drwy'r cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* am gyflenwyr sy'n bodloni eu gofynion. Gallant hefyd ddod o hyd i'w manylion cyswllt a'u hychwanegu at restrau dosbarthu Dyfynbrisiau Cyflym.

Faint mae *Canfod Cyflenwr* yn ei gostio?

Gall cyflenwyr a phrynwyr ddefnyddio *Canfod Cyflenwr* **am ddim**.

A all cyflenwr gael mwy nag un proffil *Canfod Cyflenwr*?

Caiff cyflenwyr eu cofrestru ar GwerthwchiGymru yn unigol yn hytrach na fesul cwmni. Dim ond un proffil *Canfod Cyflenwr* y gall cyflenwr ei gael o ran ei gofrestriad unigol. Fodd bynnag, os oes sawl defnyddiwr o'r cwmni wedi cofrestru ar GwerthwchiGymru, gallant lunio proffiliau ar wahân.



Sut mae defnyddio *Canfod Cyflenwr*?

Er mwyn chwilio drwy gyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* heb ddefnyddio'r swyddogaeth Dyfynbris Cyflym, ewch i'ch Panel Rheoli.

Panel Rheoli

Panel Rheoli'r Awdurdod
Croeso i Banel Rheoli eich Awdurdod Duncan . Cliciwch ar ddolen yn un o'r adrannau priodol er mwyn mynd i'r rhan o'r wefan yr hoffech fynd iddi.

 HYSBYSIADAU	 SEFYDLIAD	 CHWILIO AM GYFLENWR
<ul style="list-style-type: none">■ Creu Hysbysiad Newydd■ Fy Hysbysiau Anghyhoeddedig■ Hysbysiau Anghyhoeddedig yr Awdurdod■ Yr Hysbysiau a Gyhoeddwyd Gennyf■ Hysbysiau a Gyhoeddwyd gan yr Awdurdod■ Dyfynbrisiau Cyflym■ Hysbysiau Cam 2	<ul style="list-style-type: none">■ Proffil Prynwr/Rhestr Defnyddiwr■ Llyfrgell Dogfennau■ Adroddiadau	<ul style="list-style-type: none">■ Canfod Cyflenwr■ Chwilio yn ôl Manylion■ Chwilio yn ôl Categori



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Sut gallaf chwilio am Gyflenwyr gan ddefnyddio *Canfod Cyflenwr*?

Pan fyddwch yn mynd i'r cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* am y tro cyntaf, bydd y rhestr o ganlyniadau yn wag.

Drwy ddefnyddio'r opsiwn Chwilio a Hidlo, gallwch chwilio drwy'r cyfeiriadur cyfan a mireinio eich canlyniadau gan ddefnyddio gwahanol baramedrau. Nodwch eich paramedrau chwilio ac yna cliciwch ar y botwm "Chwilio".

Caiff cyflenwyr eu rhestru yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw'r cwmni a dangosir eu profiliau ar ochr dde'r dudalen.

Drwy glicio ar "Dechrau Chwiliad Newydd", caiff y chwiliad cyfredol ei glirio a gallwch ddechrau chwiliad arall.

Bydd y swyddogaeth hon yn ddefnyddiol wrth fynd ati i ddadansoddi'r farchnad cyn dechrau ar eich contract.

Tudalen Canfod Cyflenwr

Canfod Cyflenwr

Mae'r offeryn Canfod Cyflenwr yn eich galluogi i chwilio am gyflenwyr yn gyflym yn seiliedig ar y meini prawf chwilio a nodwyd gennych yn y panel Chwilio a Hidlo. Os nad yw **Canlyniadau Cyflenwyr** yn cynnwys y cyflenwr/cyflenwyr rydych yn chwilio amdano/amdannt, gallwch hidlo'r canlyniadau hyn eto gan ddefnyddio'r panel Chwilio a Hidlo. Os hoffech glirio'r canlyniadau a dechrau eto yna *cliciwch* ar **Chwiliad Newydd**.

Chwiliad Newydd

Chwilio a Hidlo

Nodwch Enw'r Cyflenwr / Geiriau Allweddol i chwilio am gyflenwr neu hidlo eich canlyniadau...

Enw'r Cyflenwr

Rhanbarth

- please select -

Geiriau Allweddol

Cod Post

Dangos BBaChau yn unig?

Chwilio

Canlyniadau Cyflenwyr

16 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 2

Ewch



Bert Edwards (Milford Haven) Ltd

Ffôn: 01646 698833

4 Charles Street, Milford Haven, SA73 2AJ

printing@glynedwards.co.uk



- Printing
- Leaflets
- Brochures
- Letterheads
- Booklets
- Full Colour Print

A comprehensive full colour design and print service for business and industry. All types of work undertaken.

Carrod Heating & Plumbing

Ffôn: 07813 468 177

1 Caemelin, Cwmdauddwr, Rhayader, LD6 5AP

guto.carrod@businesswales.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae'r paramedrau chwilio fel a ganlyn:

Enw'r Cyflenwr – Mae'r paramedr hwn yn eich galluogi i chwilio am gyflenwr penodol yn ôl enw'r cwmni.

Rhanbarth – Er mai eich rhanbarth chi eich hun a nodir yn awtomatig, gallwch ddewis chwilio ym mhob rhanbarth. Gall cyflenwyr ychwanegu cynifer o ranbarthau i'w proffil *Canfod Cyflenwr* ag sydd eu hangen, yn dibynnu ar ble y maent am wneud busnes. Rhennir Cymru yn 22 o ranbarthau awdurdod lleol ar GwerthwchiGymru.

Geiriau allweddol – Gall cyflenwyr ychwanegu chwe chofnod yn cynnwys y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt y gallwch eu defnyddio i chwilio am eiriau allweddol. Bydd y chwiliad yn dod o hyd i gyflenwyr sy'n cyfateb yn rhannol. Er enghraifft, pe baech yn chwilio am "plym", byddai'r canlyniadau'n cynnwys proffiliau sy'n nodi 'plymio', 'plymwr', neu 'pob math o waith plymio'.

Cod post – Mae'r paramedr hwn yn eich galluogi i gyfyngu'r chwiliad i gyflenwyr mewn ardal cod post benodol. Gallwch nodi cynifer o godau post ag y dymunwch - h.y. 'CF', 'CF25'.

Dangos BBaChau yn unig – Mae'r paramedr hwn yn eich galluogi i hidlo eich canlyniadau i ddangos BBaChau yn unig. Gofynnir i gyflenwyr nodi p'un a ydynt yn BBaCh yn eu proffil *Canfod Cyflenwr*. Caiff BBaCh ei ddiffinio fel cwmni â llai na 250 o gyflogeion.

Categori Cyflenwr – Mae'r paramedr hwn yn eich galluogi i hidlo eich chwiliad yn ôl y categorïau y mae'r cyflenwr yn eu dewis ar gyfer eu gwasanaeth rhybuddion drwy e-bost.

Chwilio gan ddefnyddio Sawl Paramedr

Gellir cynnal chwiliad gan ddefnyddio unrhyw gyfuniad o'r paramedrau chwilio uchod. Yn yr enghraifft isod, mae'r unigolyn yn chwilio am gyflenwyr yn y categori 'Llogi cerbydau diwydiannol â gyrrwr', gyda geiriau allweddol yn



cynnwys "peiriannau" a chod post yn dechrau gyda "CF". Nodwyd hefyd mai dim ond BBaChau y dylai'r chwiliad eu dangos.

Enghraifft o Chwiliad

Canfod Cyflenwr

Mae'r offeryn Canfod Cyflenwr yn eich galluogi i chwilio am gyflenwr yn gyflym yn seiliedig ar y meini prawf chwilio a nodwyd gennych yn y panel Chwilio a Hidlo. Os nad yw **Canlyniadau Cyflenwr** yn cynnwys y cyflenwr/cyflenwyr rydych yn chwilio amdano/amdanynt, gallwch hidlo'r canlyniadau hyn eto gan ddefnyddio'r panel Chwilio a Hidlo. Os hoffech glirio'r canlyniadau a dechrau eto yna *cliciwch ar Chwiliad Newydd*.

Chwiliad Newydd

Chwilio a Hidlo

Nodwch Enw'r Cyflenwr / Geiriau Allweddol i chwilio am gyflenwr neu hidlo eich canlyniadau...

Enw'r Cyflenwr

Rhanbarth

Geiriau Allweddol

Cod Post

Dangos BBaChau yn unig?

Chwilio

Canlyniadau Cyflenwr

14 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 2

Ewch



Bert Edwards (Milford Haven) Ltd

Ffôn: 01646 698833

4 Charles Street, Milford Haven, SA73 2AJ

printing@glynedwards.co.uk



- Printing
- Leaflets
- Brochures
- Letterheads
- Booklets
- Full Colour Print

A comprehensive full colour design and print service for business and industry. All types of work undertaken.

Sut gallaf gael mynediad i broffil *Canfod Cyflenwr*?

Dangosir canlyniadau'r chwiliad ar ochr dde'r dudalen. Mae'r proffil yn dangos enw'r cwmni, ei logo, ei gyfeiriad, ei gyfeiriad e-bost, ei rif ffôn, ei uchafbwyntiau a disgrifiad ohono. Pan fo gwefan wedi'i hychwanegu, mae hefyd yn nodi dolen i'r wefan. Drwy glicio ar y ddolen 'Ewch i'r Wefan', bydd y cyfeiriad gwe a roddwyd yn agor mewn ffenestr newydd. Os yw'r disgrifiad a roddwyd yn hirach na'r blwch a ddarparwyd, cliciwch ar y ddolen 'mwy oddi wrth' a fydd yn agor y proffil llawn mewn tudalen newydd.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Proffil Canfod Cyflenwr

Bert Edwards (Milford Haven) Ltd

Ffôn: 01646 698833

4 Charles Street, Milford Haven, SA73 2AJ

printing@glynedwards.co.uk

[Ewch i'r Wefan](#)



- Printing
- Leaflets
- Brochures
- Letterheads
- Booklets
- Full Colour Print

A comprehensive full colour design and print service for business and industry. All types of work undertaken. [mwy oddi wrth Menter a Busnes](#)

Faint o amser y mae'n ei gymryd i broffil Canfod Cyflenwr ymddangos yn y cyfeiriadur?

Pan fydd cyflenwr yn lanlwytho ei broffil, bydd yn cymryd tua 10 munud i'r manylion ymddangos yn y cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr*.

Sut gallaf ddefnyddio *Canfod Cyflenwr* wrth ddsbarthu Dyfynbris Cyflym?

Gallwch fynd i'r swyddogaeth *Canfod Cyflenwr* drwy'r dudalen Dosbarthu Dyfynbris Cyflym. Yn ogystal â'r tab "Paru Cyflenwyr" sy'n rhestru'r holl gyflenwr sydd wedi'u cofrestru yn y gronfa ddata, mae tab newydd ar gyfer y rheini â phroffil *Canfod Cyflenwr*. Mae'r canlyniadau yn y tab hwn yn seiliedig ar y cyflenwyr hynny sydd wedi'u cofrestru yn erbyn y categorïau nwyddau a ddewiswyd yn y Dyfynbris Cyflym. Gallwch roi'r gorau i ddefnyddio'r cod nwyddau er i chi allu chwilio drwy'r cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* cyfan.



Mae opsiynau ar gael i hidlo'r chwiliad ymhellach yn ôl statws BBaCh, enw'r cwmni, rhanbarth, geiriau allweddol a chod post. Gellir defnyddio unrhyw gyfuniad o'r paramedrau hyn i gynnal y chwiliad.

Hidlo'r Broses o Chwilio am Gyflenwr yn Dosbarthu Dyfynbris Cyflym

Dewis Cyflenwyr i Ddosbarthu'r Dyfynbris iddynt

Rhestr Ddosbarthu | Paru Cyflenwyr | **Canfod Cyflenwr**

Mae'r Rhestr Canfod Cyflenwr isod yn nodi'r holl gyflenwyr sy'n cyfateb i'r categorïau nwyddau a nodwyd yn y Dyfynbris Cyflym hwn ac sydd wedi llunio Proffil Canfod Cyflenwr. Dewiswch y blwch ticio wrth ymyl y cyflenwr/cyflenwyr rydych am *chlicioch ar* y botwm **Ychwanegu**. Gallwch hefyd edrych ar Broffil Canfod Cyflenwr unrhyw gyflenwr a restrir isod drwy *glicio ar* enw'r cyflenwr priodol.

Gallwch freinio'r chwiliad drwy nodi meini prawf chwilio newydd a gallwch hepgor categorïau nwyddau gan y gall fod gan rai cyflenwyr categorïau gwahanol yn eu proffil cyflenwr.

Mireinio'r Chwiliad

Hpgor Categorïau Nwyddau Dangos BBaChau yn unig

Enw'r Cwmni Rhanbarth

Geiriau allweddol Cod Post

Rhestr Canfod Cyflenwr

6 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1

<input type="checkbox"/> Business Wales	Helen Evans - helen.evans@businesswales.org.uk »
<input type="checkbox"/> Business Wales	Llinos Price - llinos.price@hotmail.co.uk »
<input type="checkbox"/> Business Wales	Elgan Richards - elgan.richards@businesswales.org.uk »
<input type="checkbox"/> EdsTest	Ed Ryan - jules902@ntlworld.com »
<input type="checkbox"/> Island Utilities	Marjorie Utility Robertson - marjorie@clickstream.co.uk »
<input type="checkbox"/> Oliver Solutions	Helen Oliver - helen.xchangewales@live.co.uk »

Er mwyn gweld proffil *Canfod Cyflenwr* defnyddiwr, mae'n rhaid i chi glicio ar y ddolen sy'n rhestru enw a chyfeiriad e-bost y defnyddiwr hwnnw.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhestr Canfod Cyflenwr

1 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1 **Ewch**

Island Utilities
Marjorie Utility Robertson - marjorie@klickstream.co.uk »

Ychwanegu

Dosbarthu **Canslo**

Bydd hyn yn agor ei broffil *Canfod Cyflenwr* ar dudalen newydd.


Er mwyn dychwelyd i'r dudalen *Dosbarthu Dyfynbris Cyflym*, cliciwch ar y ddolen 'Dychwelyd i ganlyniadau'r chwiliad *Canfod Cyflenwr*'.

Edrych ar Fanylion Canfod Cyflenwr

Isod ceir rhestr o fanylion y cyflenwr a ddewiswyd.

Dychwelyd i ganlyniadau'r chwiliad am gyflenwyr

Qader Business Solutions Ltd Ffôn: 2344424
Hawthorn Gardens, Stoke on Trent, ST7 1TD Ewch i'r Wefan
ali@qader.co.uk



- IT
- Business Analysis
- project management
- Collaboration
- Intranet
- Internet

Business Analysis
Project Management
Process Mapping
Document Management Consultancy
Collaboration Consultancy
Internet and Intranet Consultancy

Private Sector pharmaceutical and IT industry
Public Sector NHS and Government services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Os hoffech ychwanegu cyflenwr o'r tab *Canfod Cyflenwr*, ticiwch y blwch wrth ymyl enw'r cyflenwr ac yna clicio ar "Ychwanegu".

Rhestr Canfod Cyflenwr
1 daethpwyd o hyd i gofnodion. Neidio i dudalen 1 o 1 **Ewch**

Qader Business Solutions Ltd
Ali Qader - ali@qader.co.uk »

Ychwanegu

Efallai na fydd y cyfeiriad e-bost a roddir yn y proffil *Canfod Cyflenwr* yn cyfateb i gyfeiriad e-bost cofrestredig y defnyddiwr ar GwerthwchiGymru. Anfonir y Dyfynbris Cyflym i'w gyfeiriad e-bost cofrestredig.